**Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd**
Uned Gofal Strydoedd / DGFfASN
Bloc 1, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ
**Ffôn: (01267) 224507/08/09**
**E-bost:** gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk

**Place, Infrastructure & Economic Development**
Street Care / NRASWA Section
Block 1, Parc Myrddin, Richmond Terrace, Carmarthen, SA31 1HQ
**Tel: (01267) 224507/08/09**
**E-mail:** streetcare@carmarthenshire.gov.uk

# CAFFI STRYD - GOSOD BYRDDAU A CHADEIRIAU AR LWYBRAU TROED A MANNAU I GERDDWYR

## Cyngor ynglŷn â Chael Caniatâd ar gyfer Mannau Trwyddedig

### SEDDAU Y TU ALLAN I GAFFIS

Mae'r Cyngor yn cefnogi'r defnydd o gadeiriau a byrddau y tu allan i gaffis, tafarnau a thai bwyta lle bo digon o le, gan eu bod yn dod â bywyd ac egni i'r strydoedd.

Er mwyn sicrhau nad ydynt yn peri problemau i gerddwyr a/neu gerbydau gwasanaethau a cherbydau brys, mae'n hanfodol eich bod yn cael caniatâd gan y Cyngor, a'ch bod yn cadw at yr amodau sy'n cael eu nodi yn y drwydded. Mae'r amod sy'n gofyn am amgylchynu'r man eistedd yn arbennig o bwysig er mwyn arwain pobl ddall a rhannol ddall, a bydd o gymorth hefyd i bobl oedrannus a rhieni â phlant ifanc.


**Mae'r cyngor hwn** yn esbonio sut i wneud cais am ganiatâd a pha ystyriaethau y bydd yn rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu ar geisiadau am fyrddau a chadeiriau.

### CANLLAWIAU YNGLŶN AG AMGYLCHYNU MANNAU AR GYFER BYRDDAU A CHADEIRIAU

Nod y canllawiau hyn yw sicrhau fod y mannau eistedd wedi eu hamgylchynu mewn dull sydd o fudd i'r rhai sy'n mynd heibio yn ogystal â'r rhai sy'n mynychu'r lleoedd hyn, a chynnal amgylchedd o safon uchel. Mae'r darluniau canlynol yn dangos y ffordd orau o amgylchynu mannau eistedd gan ddefnyddio deunyddiau gwahanol megis blychau plannu blodau, pyst, rhaffau a rheiliau tapio ac ati.

Gellir defnyddio parasolau / ymbarelau ynghyd â'r uchod, ond ni ddylai canopïau ymestyn y tu hwnt i'r man trwyddedig.

### PYST, RHAFF A RHEILEN DAPIO



**MANYLION PWYSIG**

**Uchder -** Mewn enw dylai'r man caeedig fod yn 1.0 metr o uchder, yn amodol ar gytuno ar yr union fanylion.

**Lliw -** Rhaid i'r lliw a ddefnyddir i nodi'r ffin fod mewn lliw ac arlliw cyferbyniol i'w gefndir a'r byrddau a'r cadeiriau sydd i'w defnyddio.

**Bwrdd tapio -** Rhaid cynnwys bwrdd tapio a rheilen uchaf sefydlog ar y pennau cyfeiriadol, a rhaid i'r bwrdd tapio fod tua 150mm o drwch ac mor agos i'r ddaear â phosib. Mae rheilen uchaf rhaff yn dderbyniol o un pen i'r llall ar ei hyd h.y. yn gyfochrog â'r llwybr troed. Dylid gosod y bwrdd tapio yn gadarn rhwng y pyst unionsyth a bydd yn gweithredu fel canllaw i ymyl y man caeedig.

**BLYCHAU PLANNU BLODAU**

Byddwn yn ystyried y defnydd o flychau plannu blodau i amgylchynu byrddau a chadeiriau ar sail unigol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn bodloni'r meini prawf uchod.

**BINIAU SBWRIEL**

Bydd yn rhaid gosod y rhain ym mhob man caeedig hefyd a rhaid iddynt fod mewn lliw cyferbyniol i'w cefndir.

**GOFYNION LLWYBRAU TROED**

Mae'n rhaid darparu llwybr troed agored 1.80 metr o led fel y gall cerddwyr symud yn ddiogel ac yn hwylus. Caiff y pellter hwn ei fesur o ymyl y man trwyddedig i unrhyw nifer sylweddol o gelfi stryd (megis polion lampau, bolardiau, rheiliau amddiffyn cerddwyr, cyrbau ac ati). **Lle bo nifer fawr o gerddwyr, efallai y bydd angen mwy o le o ran y llwybr troed.**

Mewn strydoedd i gerddwyr yn unig mae'n rhaid i isafswm lled o 1.8 metr neu ddwy ran o dair lled cyfan y briffordd gyhoeddus, pa un bynnag yw'r mwyaf, fod yn rhydd ac yn agored er mwyn hwyluso symudiadau cerddwyr. Gellir cynyddu'r ffigur hwn lle bo nifer fawr o gerddwyr. Bydd y llwybr agored yn gorwedd yn gyfartal bob ochr i linell ganol y llwybr troed er mwyn gwneud yn siŵr fod y lle sydd ar gael i fyrddau a chadeiriau yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng yr adeiladau ar y naill ochr a'r llall i'r stryd.

Mewn strydoedd sydd ar gael i gerddwyr yn unig ar sail ran-amser, gellir cyfyngu'r defnydd o'r man trwyddedig i gyfnodau arbennig er mwyn hwyluso anghenion mynediad gwasanaethau ac mewn achosion brys.

**Mae'n rhaid i unrhyw gynlluniau beidio â pheryglu unrhyw lwybr canllaw botymog.**

Mae'n rhaid cynnal llwybr agored tua 1.2 metr o led o leiaf er mwyn galluogi pobl i fynd i mewn ac allan o adeiladau siopau, ac mae'n rhaid i'r man trwyddedig beidio â bod yn fwy na lled yr adeilad.

Pe byddai'r man eistedd caeedig yn cael ei leoli gerllaw'r ffordd yna byddai'n rhaid cynnal lle clir o 450mm o leiaf rhwng yr atalfa a'r ffordd a byddai angen cau'r man ar bob un o'r pedair ochr.

Yna byddai isafswm yr anghenion lled llwybr troed yn berthnasol rhwng y man trwyddedig a'r adeilad.

**GWNEUD CAIS AM GANIATÂD**

Oddi mewn i'r llwybrau troed a'r mannau i gerddwyr ar y briffordd, yr Awdurdod Priffyrdd sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau, dan adrannau 115 (E) i (K) o'r Ddeddf Priffyrdd a gellir eu caniatáu am hyd at 1 flwyddyn. Bydd angen gwneud cais ar wahân ar gyfer pob cyfnod o amser wedi hynny.
Mae'r manylion ar ddiwedd y daflen hon yn nodi pwy y dylech chi gysylltu â hwy i gael ffurflen gais.
**Mae'n rhaid i chi gael y caniatâd hwn gan y Cyngor cyn gosod unrhyw fyrddau a chadeiriau ar y briffordd.**

**YMGYNGHORI**

Cyn rhoi trwydded mae'r Awdurdod yn ymgynghori ag Adain Drwyddedu Diogelu'r Cyhoedd, yr Heddlu a'r eiddo cyfagos. Bydd hysbysiad cyhoeddus hefyd yn cael ei osod yn y cyffiniau i roi gwybod i unrhyw bartïon sydd â buddiant yn y Caffi Stryd arfaethedig ac os bydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law **ni** fydd y Drwydded Caffi Stryd yn cael ei rhoi. Felly efallai y byddai'n fuddiol i unrhyw ddarpar ymgeiswyr drafod y cynigion â'r cymdogion cyn cyflwyno cais.